

# Amlinelliad o'r Cymhwyster TGAU Cerddoriaeth – Fersiwn Ymgynghori



Gwnaed i Gymru.  
Yn barod i'r byd.

## Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon mae trosolwg ar lefel uchel o'r Cymhwyster CBAC TGAU Cerddoriaeth arfaethedig.

Mae'n seiliedig ar Feini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru (mae adrannau allweddol wedi'u cynnwys yn Atodiad 1). **Rhaid** i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Bydd yr amlinelliad hwn o'r cymhwyster yn gweithio fel canllaw ar gyfer datblygu'r Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (DAE).

## Trosolwg o'r Cymhwyster

Mae'r cymhwyster TGAU Cerddoriaeth yn cael ei lunio ar sail ystyriaethau pwnc-benodol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Celfyddydau Mynegiannol<sup>1</sup>.

Bydd y cymhwyster:

- drwy'r broses greadigol, yn caniatáu i ddysgwyr archwilio, ymateb i ysgogiadau a chreu a myfyrio ar eu gwaith eu hunain. Ar yr un pryd, byddant hefyd yn ymwneud â phrofiadau sy'n gyfoethog ac yn ddilys.

Mae'r cysyniadau canlynol ar gyfer y cymhwyster TGAU Cerddoriaeth yn seiliedig ar y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig Llywodraeth Cymru ar gyfer y Celfyddydau Mynegiannol<sup>2</sup>:

- mae **archwilio'r** Celfyddydau Mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol
- mae **ymateb a myfyrio**, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y Celfyddydau Mynegiannol
- mae **creu** yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a'r dychymyg.

Bydd y cymhwyster TGAU Cerddoriaeth yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy gefnogi'r egwyddorion cynnydd<sup>3</sup>:

- annog dysgwyr i archwilio, profi, dehongli, creu ac ymateb i ystyr sy'n gynyddol gymhleth
- datblygu dysgu cysyniadol sy'n gynyddol soffistigedig
- defnydd mwy soffistigedig o sgiliau perthnasol a'r gallu i drosglwyddo sgiliau a gwybodaeth bresennol i gyd-destunau newydd.

---

<sup>1</sup> <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-celfyddydau-mynegiannol/cynllunio-eich-cwricwlwm/#specific-considerations-for-this-area>

<sup>2</sup> <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-celfyddydau-mynegiannol/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig/>

<sup>3</sup> <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-celfyddydau-mynegiannol/egwyddorion-cynnydd/>

## Strwythur Arfaethedig y Cymhwyster

### Uned 1: Perfformio

Asesiad ymarferol

32.5% o'r cymhwyster

Wedi'i marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC

### Uned 2: Cyfansoddi

Asesiad ymarferol a log myfyriol

32.5% o'r cymhwyster

Wedi'i marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC

### Uned 3: Arfarnu

Arholiad digidol

35% o'r cymhwyster

Wedi'i marcio gan CBAC

- Bwriadwn y canrannau canlynol ar gyfer y pedwar amcan asesu:

<b>AA1</b>	<b>Arddangos a chymhwyso</b> gwybodaeth a dealltwriaeth o ystod o gerddoriaeth.	20%
<b>AA2</b>	<b>Datblygu a chymhwyso</b> sgiliau perfformio a/neu wireddu	32.5%
<b>AA3</b>	<b>Dadansoddi, gwerthuso a myfyrio</b> ar eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill	17.5%
<b>AA4</b>	<b>Creu a datblygu</b> syniadau i gyfathrebu ystyr mewn cyfansoddiadau	30%

Cymhwyster llinol fydd hwn. Gellid cwblhau Uned 1 ac Uned 2 ar unrhyw bryd yn ystod y ddwy flynedd a'u cyflwyno i CBAC ym mlwyddyn olaf y cwrs. Byddai Uned 3 yn cael ei chwblhau yn ystod blwyddyn olaf y cwrs.

# Gwybodaeth am Unedau

## Uned 1 – Perfformio

### Pwrpas yr uned hon yw:

- caniatáu i ddysgwyr archwilio amrywiaeth o repertoire perfformio a dewis y darnau maen nhw am eu perfformio
- caniatáu i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau technegol a pherfformio drwy fyfyrion ar eu gwaith eu hunain mewn cylchred barhaus o ymarfer a gwella
- darparu cyfleoedd i ddysgwyr berfformio'n unigol a/neu'n rhan o ensemble a datblygu'r sgiliau sy'n ofynnol i ddod yn hyfedrus
- darparu cyfle i ddysgwyr ddatblygu sgiliau personol hunanwerthuso, gwydnwch, penderfynoldeb a hyder.

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau a chynnwys posibl canlynol:

- **archwilio** – bydd dysgwyr yn cael y cyfle i archwilio a pherfformio amrywiaeth o repertoire, o amrywiol genres a chyfnodau ac yn gysylltiedig â gwahanol ddiwylliannau yng Nghymru a'r byd. Gallai hyn gynnwys perfformio gan ddefnyddio unrhyw offeryn, llais neu dechnoleg, fel unawdydd neu'n rhan o ensemble.
- **ymateb a myfyrio** – bydd dysgwyr yn cael y cyfle i fyfyrion ar eu gwaith eu hunain, ac ar adborth gan bobl eraill i roi ffocws i'w hymarfer, a fydd wedyn yn caniatáu iddynt ddatblygu eu sgiliau ymarferol ymhellach. Gall y gwelliannau yn y perfformiadau maen nhw'n eu rhoi fod yn dystiolaeth o'u hunanwerthuso ac o'u hymateb i'r adborth sy'n cael ei roi. Bydd mwy o allu technegol a chyfathrebu i'w weld.
- **creu** – bydd dysgwyr yn cael y cyfle i gynnwys chwarae'n fyrfyfyr yn eu perfformiadau, a gydag ymarfer, i ddatblygu i fod yn fwy hyfedrus a hyderus yn y sgil hon. Wrth brofi'r broses o greu eu perfformiadau terfynol byddant hefyd yn gallu dehongli repertoire mewn ffordd sy'n briodol i'w gallu eu hunain a'r hyn maen nhw'n ei ddewis o ran arddull bersonol.

Asesir yr uned drwy asesiad di-arholiad ymarferol. Cyflwynir recordiadau sain a thystiolaeth ategol ym mlwyddyn olaf y cwrs yn ystod y gyfres haf. Bydd tasgau'r uned hon yn targedu AA2. Rhagwelir y bydd oddeutu 4 munud o amser perfformio a byddai naill ai perfformiad unigol neu ensemble, neu gyflwyniad cymysg, yn dderbyniol. Bydd CBAC yn caniatáu i ddysgwyr berfformio yn yr arddull(iau)/genre(s) o'u dewis a hefyd yn hapus i ganiatáu dewis agored o offeryn, llais neu dechnoleg ddigidol. Yn y cyd-destun hwn, byddai "perfformio" yn cynnwys defnyddio technoleg i wireddu darn o gerddoriaeth.

## Uned 2 – Cyfansoddi

#### **Pwrpas yr uned hon yw:**

- datblygu ymwybyddiaeth o'r broses o greu cerddoriaeth wreiddiol
- datblygu sgiliau dysgwyr o ran hunanwerthuso, mireinio a datblygu eu gwaith eu hunain
- datblygu ymdeimlad o ysgrifennu cerddoriaeth at bwrpas penodol
- caniatáu i ddysgwyr archwilio'r broses o greu cerddoriaeth mewn amrywiaeth o genres ac arddulliau gwahanol, o gyfnodau gwahanol.

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau a chynnwys posibl canlynol:

- **archwilio** – bydd dysgwyr yn cael y cyfle i archwilio amrywiol arddulliau a genres cerddorol sy'n gysylltiedig â gwahanol ddiwylliannau yng Nghymru a'r byd ac i ddeall sut cafodd y rhain eu greu i gynhyrchu'r bwriad arfaethedig. Byddan nhw'n gallu defnyddio'r dulliau hyn i greu a datblygu eu syniadau eu hunain. Byddan nhw hefyd yn gallu archwilio syniadau drwy chwarae'n fyrfyfyr wrth gyfansoddi.
- **ymateb a myfyrio** – bydd dysgwyr yn gallu gwerthuso a mireinio eu gwaith drwy fyfyrto. Gallant ddefnyddio adborth gan bobl eraill i greu cynnyrch gorffenedig llwyddiannus.
- **creu** – bydd dysgwyr yn creu eu cerddoriaeth wreiddiol eu hunain mewn arddull o'u dewis, a darn i fodloni briff a fydd wedi'i bennu gan CBAC.

Asesir yr uned drwy asesiad di-arholiad ymarferol a log myfyriol. Cyflwynir recordiadau sain a thystiolaeth ategol ym mlwyddyn olaf y cwrs yn ystod y gyfres haf.

Bydd y cymysgedd o dasgau ar gyfer yr uned hon yn targedu AA3 ac AA4, gyda mwy o bwyslais ar AA4. Bydd CBAC yn gosod y briffiau Cyfansoddi ar ddechrau'r cwrs (Blwyddyn 10 fel arfer), i'w cyflwyno yn ystod blwyddyn olaf y cwrs (Blwyddyn 11 fel arfer). Bydd dewis a hyblygrwydd ar gael i'r dysgwyr o ran y briff cyfansoddi gosod i'w ddewis ar gyfer yr uned hon. Yn ogystal, bydd dysgwyr hefyd yn cyfansoddi mewn ymateb i'w briff eu hunain. Bydd CBAC yn caniatáu i ddysgwyr gyfansoddi yn yr arddull(iau)/genre(s) o'u dewis a hefyd yn caniatáu dewis agored o offeryn, llais neu dechnoleg ddigidol.

### Uned 3 – Arfarnu (Arholiad Digidol)

#### **Pwrpas yr uned hon yw:**

- caniatáu i ddysgwyr brofi cerddoriaeth o wahanol arddulliau, amseroedd a genres.
- caniatáu i ddysgwyr ddatblygu sgiliau gwranddo trosglwyddadwy sy'n seiliedig ar werthfawrogiad o elfennau cerddoriaeth a sut maen nhw'n cael eu defnyddio.
- datblygu iaith ddisgrifio a dadansoddi cerddoriaeth.
- dangos sgiliau clywedol mewn perthynas â cherddoriaeth gyfarwydd ac anghyfarwydd.
- caniatáu i ddysgwyr ddatblygu fel cerddorion creadigol drwy ddealltwriaeth o gerddoriaeth pobl eraill.

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau canlynol:



- **archwilio** – bydd dysgwyr yn cael y cyfle i brofi gwrando ar amrediad eang o gerddoriaeth er mwyn dod i ddeall sut mae'r cyfansoddwyr a'r perfformwyr yn creu'r effaith maen nhw'n dymuno ei chael, dweud stori neu gyfleu emosiynau. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith mae dysgwyr yn ei gwblhau yn Uned 2 Cyfansoddi, lle byddan nhw'n gallu defnyddio'r technegau maen nhw'n eu clywed, ac yn Uned 1 Perfformio, lle byddan nhw'n gallu dilyn confensiynau arddull maen nhw wedi'u clywed.
- **ymateb a myfyrio** – bydd dysgwyr yn gallu adnabod y cysylltiadau rhwng gwahanol ddarnau o gerddoriaeth yn nhermau'r defnydd o'r elfennau cerddorol. Gallant ymateb ar eu lefel eu hunain i ba mor effeithiol yw'r rhain mewn arddulliau neu genres cyferbyniol.

Asesir yr uned hon drwy arholiad digidol yn ail flwyddyn y cwrs, a fydd ar gael o gyfres haf 2027 ymlaen. Bydd cymysgedd o fathau o gwestiynau a fydd yn targedu AA1 ac AA3, gyda mwy o bwyslais ar AA1. Mae'n debygol y bydd yr arholiad tuag 1 awr o hyd, ond bydd angen ystyried hyn ymhellach. Mae angen meddwl a ellid caniatáu i ddysgwyr ailchwarrae darnau er mwyn ateb y cwestiynau ac mae hynny wedyn yn berthnasol i hydrinedd o ran y dysgwyr a'r canolfannau. Bydd enghreifftiau sain yn rhan o bob cwestiwn. Bydd cwestiynau ar ddarnau sydd wedi'u gosod gan CBAC ac ar weithiau heb eu paratoi. Bydd y gweithiau gosod yn cynnwys darnau: o arddulliau/genres cyferbyniol; o gyfnodau cyferbyniol; sydd wedi'u creu yng Nghymru neu wedi'u hysbrydoli gan Gymru; sydd wedi'u hysgrifennu gan amrediad amrywiol o awduron gan gynnwys o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

## Ystyriaeth o hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd.

Wrth ddatblygu'r amlinelliad hwn o'r cymhwyster arfaethedig, rydym wedi ystyried hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd, a hefyd sut i gydbwysu'r ystyriaethau hyn yng nghyd-destun gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo.

Yn ôl gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo mae angen asesu 65% o'r cymhwyster drwy asesiad di-arholiad, i'w farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC. Gallai hyn olygu rhai heriau o ran hydrinedd ond bwriadwn leihau'r rhain i'r eithaf drwy ganiatáu mwy o hyblygrwydd i ganolfannau a dysgwyr o ran pa bryd y gellid ymgymryd ag asesiadau mewnol yn ystod y ddwy flynedd.

Gan fod y Meini Prawf Cymeradwyo yn nodi ei bod yn ofynnol i'r cymhwyster fod yn llinol, rhaid cyflwyno'r holl waith yn ystod blwyddyn olaf y cwrs. Fodd bynnag, er mwyn helpu'r canolfannau a'r dysgwyr o ran hydrinedd, bwriadwn roi'r rhyddid iddyn nhw recordio'r elfennau ymarferol o'r unedau Perfformio a Chyfansoddi ar unrhyw bryd yn ystod y ddwy flynedd. Yn ogystal â hyn, mae CBAC yn bwriadu rhyddhau'r briffiau cyfansoddi ar ddechrau'r cwrs. Bydd hynny wedyn yn rhoi mwy o amser i ddysgwyr brofi, archwilio ac arbrofi gydag arddulliau a genres cerddorol perthnasol cyn iddyn nhw ddechrau ar eu gwaith cyfansoddi eu hunain. Bydd hyn yn caniatáu asesu dysgwyr ar ôl iddynt ymgymryd â'r addysgu a dysgu a datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth ofynnol. Rydym mewn cysylltiad â Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru o ran gallu'r canolfannau i ddarparu'r asesiad ar sgrin.

Credwn y dylai'r cymhwyster arfaethedig gynnig cyfleoedd i ganolfannau ddatblygu rhaglen astudio ddeniadol ar gyfer eu dysgwyr, yn unol â disgygliadau'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd y rhyddid sy'n cael ei gynnig yn yr uned Perfformio o ran y dewis o arddull/genre perfformio a'r rhyddid i ddewis offeryn, llais neu dechnoleg ddigidol yn helpu i wneud yr asesiad yn fwy

deniadol i ddysgwyr. Eto, yn yr Uned Cyfansoddi, bydd amrywiaeth o friffiau cyfansoddi â safbwyntiau amrywiol a fydd yn caniatáu i ddysgwyr archwilio safbwynt lleol, cenedlaethol neu ryngwladol. Bydd y briffiau'n helpu'r dysgwyr i ymgysylltu, gan hwyluso'r cyfle i greu gwaith, sy'n berthnasol ac yn greadigol. Yn ogystal, bydd dysgwyr yn dyfeisio eu briff eu hunain er mwyn creu cyfansoddiad rhydd.

Credwn fod y tasgau asesu di-arholiad a fwriadwn ar gyfer yr unedau Perfformio a Chyfansoddi yn ffordd ddilys o asesu'r pwrpas a'r cynnwys gan eu bod yn caniatáu i fyfyrwyr ddangos eu sgiliau mewn cyd-destunau priodol. Er mwyn sicrhau bod yr asesiad di-arholiad yn ddibynadwy, byddwn yn sicrhau bod pob uned yn targedu'r un pwysoliadau o ran yr amcanion asesu dros amser. Datblygir meini prawf marcio a bydd pecyn o gefnogaeth ar gael i athrawon a fydd yn sicrhau bod y meini prawf marcio'n cael eu cymhwyso'n gyson ar draws canolfannau a dros amser. Byddwn yn cymedroli sampl o waith ymgeiswyr o bob canolfan fel ffordd ychwanegol o sicrhau dilysrwydd.

Bwriadwn i'r tasgau asesu di-arholiad gael lefelau gwahanol o reolaeth. Er enghraifft, yn yr uned Cyfansoddi, bydd dysgwyr yn cael y rhyddid i archwilio a chreu syniadau heb fod angen goruchwyliaeth ar lefel uchel. Mae hyn ar yr amod y bydd canolfannau'n gallu dilysu'r gwaith yn ystod gwahanol gamau'r broses.

Credwn y gellir asesu pwrpas a chynnwys yr uned Arfarnu yn ddilys drwy arholiad. Bydd cymysgedd o fathau o gwestiynau'n fodd o'n helpu i'w gwneud mor ddilys â phosibl. Pan fyddwn yn datblygu asesiadau, bydd CBAC yn sicrhau bod yr holl dasgau'n targedu'r lluniad perthnasol, eu bod yn gytbwys o ran y cynnwys yr ymdrinnir ag ef dros amser a bod yr eitemau asesu a'r canlyniadau dysgu'n cyfateb. Lle y bo'n briodol gwneud hynny, byddwn yn defnyddio data sydd ar gael i ni o ran sut y gweithredodd yr asesiad. I sicrhau eu bod yn ddibynadwy, byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod yr unedau arholiad yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu a bod lefel y galw'n gyson ym mhob cyfres. Datblygir meini prawf marcio a bydd aseswyr yn cael eu hyfforddi o ran sut i'w cymhwyso'n gyson.

Byddwn yn parhau i ystyried y cydbwysedd o ran hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd ym mhob cam o ddatblygu'r cymhwyster.

## Atodiad 1

### Gwybodaeth allweddol o'r Meini Prawf Cymeradwyo

Daeth y wybodaeth sy'n dilyn yn syth o [Feini Prawf Cymeradwyo - TGAU Cerddoriaeth](#) Cymwysterau Cymru - ac mae'n rhaid i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

#### Pwrpas

##### 1. Rhaid i **TGAU Cerddoriaeth**:

- 1.1 gael ei dylunio'n bennaf ar gyfer *Dysgwyr* rhwng 14 ac 16 oed
- 1.2 adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol y mae *Dysgwyr* wedi'i datblygu drwy eu haddysg rhwng 3 ac 14 oed
- 1.3 cefnogi addysgu a dysgu drwy ddarparu cynnwys ac asesiadau sy'n briodol o eang, heriol, perthnasol a diddorol sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru ac yn ei gefnogi, gan gynnwys ei [bedwar diben](#)
- 1.4 galluogi *Dysgwyr* i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith
- 1.5 darparu gwybodaeth ystyrion, deg a chywir am gyflawniad *Dysgwyr* mewn pwnc sy'n amlygu'r hyn y mae *Dysgwyr* yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud

#### Nodau

##### 2. Rhaid i **TGAU Cerddoriaeth**:

- 2.1. ganiatáu i *Ddysgwyr* archwilio amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â cherddoriaeth
- 2.2. darparu cyfleoedd i *Ddysgwyr* gael eu hasesu mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol ac ystyrion

##### 3. Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Cerddoriaeth** gefnogi *Dysgwyr i*:

- 3.1. archwilio cerddoriaeth a grëwyd ac a berfformir gan bobl eraill a datblygu eu doniau cerddorol eu hunain
- 3.2. ennyn dealltwriaeth o ystod o ffurfiau, arddulliau a genres cerddorol yn ogystal ag elfennau cerddorol
- 3.3. datblygu gwybodaeth, gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o sut mae ystyr yn cael ei gyfathrebu trwy gerddoriaeth
- 3.4. ymateb i gerddoriaeth gan eraill a myfyrio arni, gan gymhwyso gwybodaeth am gyd-destun er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd y syniadau a'r technegau a ddefnyddiwyd i gyfathrebu ystyr
- 3.5. datblygu sgiliau perfformio/gwireddu i gyfathrebu'n gerddorol a dangos rheolaeth
- 3.6. datblygu sgiliau creadigol er mwyn defnyddio syniadau cerddorol i gyfleu ystyr
- 3.7. myfyrio ar, mireinio a gwerthuso eu gwaith eu hunain
- 3.8. archwilio themâu trawsgwricwlaidd hawliau dynol ac amrywiaeth, gan gynnwys safbwyntiau, hunaniaeth, diwylliant a chyfraniadau pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol

#### Amcanion Asesu

- Rhaid i'r asesiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen yn y cymhwyster dargedu'r amcanion asesu canlynol yn unol â'r pwysoli a nodir, o fewn goddefiant o +/- 5 pwynt canrannol.



<b>AA1</b>	<b>Arddangos a chymhwyso</b> gwybodaeth a dealltwriaeth o ystod o gerddoriaeth.	20%
<b>AA2</b>	<b>Datblygu a chymhwyso</b> sgiliau perfformio a/neu wireddu	30%
<b>AA3</b>	<b>Dadansoddi, gwerthuso a myfyrio</b> ar eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill	20%
<b>AA4</b>	<b>Creu a datblygu</b> syniadau i gyfathrebu ystyr mewn cyfansoddiadau	30%

## Cynllun asesu

- Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Cerddoriaeth** fod yn llinol.
- Ni fydd haenau yn y cymhwyster hwn.

Rhaid i'r fanyleb **TGAU Cerddoriaeth** gynnwys y trefniadau asesu a ganlyn:

- 11.1 rhaid i gyfanswm o 35% o'r cymhwyster gael ei asesu drwy arholiad allanol y mae'n rhaid iddo:
- 11.1.1 cael ei osod a'i farcio gan y corff dyfarnu
- 11.1.2. cynnwys, a gofyn i Ddysgwyr adolygu ac ymateb i, recordiadau o berfformiadau cerddorol wedi'u paratoi a heb eu paratoi
- 11.2 dros oes y cymhwyster, rhaid i'r arholiad allanol asesu Dysgwyr ar gerddoriaeth:
- 11.2.1 o arddulliau/genres cyferbyniol
- 11.2.2 o gyfnodau/cyd-destunau cyferbyniol
- 11.2.3 sydd wedi'i chreu yng Nghymru neu wedi'i hysbrydoli gan Gymru;
- 11.2.4 a ysgrifennwyd gan ystod amrywiol o awduron gan gynnwys y rhai o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol
- 11.3 rhaid asesu cyfanswm o 65% o'r cymhwyster drwy asesiad ymarferol di-arholiad.
- 11.4 rhaid i'r asesiad di-arholiad:
- 11.4.1 gynnwys uned berfformio sydd werth 32.5% o'r cymhwyster
- 11.4.2 gael ei osod a'i farcio gan y Ganolfan a'i gymedroli gan y corff dyfarnu
- 11.5 rhaid i'r asesiad di-arholiad:
- 11.5.1 gynnwys uned gyfansoddi sydd werth 32.5% o'r cymhwyster sydd
- 11.5.2 i'w osod gan y corff dyfarnu, ei farcio gan y Ganolfan, a'i Gymedroli gan y corff dyfarnu
- 11.6 rhaid cyflwyno'r asesiadau di-arholiad ym mlwyddyn olaf y cwrs
- 11.7 rhaid i'r asesiad di-arholiad ganiatáu i Ddysgwyr berfformio a chyfansoddi yn yr arddull(iau)/genre(s) o'u dewis
- 11.8 rhaid i'r asesiad di-arholiad gefnodi dewis agored o offeryn, llais neu dechnoleg ddigidol
- 11.9 rhaid bod cyfle i bob asesiad di-arholiad gael ei gyflwyno'n ddigidol
- 11.10 fel rhan o'r uned gyfansoddi, rhaid i Ddysgwyr gyflwyno log myfyriol mewn fformat nad yw'n cael ei ragnodi; bydd hyn yn orfodol i gyrraedd yr ystod lawn o farciau

11.11 rhaid i'r log myfyriol:

11.11.1 fod yn werth dim llai na 2% a dim mwy na 5% o gyfanswm y cymhwyster

11.11.2 fod yn werth nifer sefydlog o'r marciau sydd ar gael

11.11.3 gallu cael ei gyflwyno'n ddigidol